

Lesley Griffiths AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Lesley Griffiths MS, Cabinet Secretary for Culture and Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew Farrow
Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir y Fflint

andrew.farrow@flintshire.gov.uk

CC: andy.roberts@flintshire.gov.uk, adrian.walters@flintshire.gov.uk,
dave.jolly@flintshire.gov.uk, vicky.clark@flintshire.gov.uk

30 Mai 2024

Annwyl Andrew

Hoffwn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb ichi ynghylch eich asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cylch 2 (25 Chwefror 2016 – 24 Chwefror 2022). Y rheswm am hyn oedd prinder staff sylweddol.

Rwyf bellach wedi ystyried eich asesiad ac wedi cymeradwyo'r cynnwys, yn unol ag adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol fynd ati nawr i gyhoeddi'r asesiad a gymeradwywyd.

Roedd yn braf gweld eich bod wedi gallu casglu barn 56 o aelwydydd drwy eich asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr, a 45 ohonynt yn uniongyrchol drwy gyfweiliadau ag aelwydydd unigol. Fe wnaethoch ddangos ymwybyddiaeth dda o sensitifrwydd diwylliannol drwy benodi personél hyfforddedig a oedd yn gyfarwydd â gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i ymgymryd â'r gwaith maes. Roedd hyn yn amlwg yn lefel yr ymgysylltiad a sicrhawyd.

Er nad oedd gennych aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn eich grŵp llywio, roedd eich swyddog cyswllt â Sipsiwn a Theithwyr mewn sefyllfa i roi adborth defnyddiol drwy eu gwybodaeth am yr ardal leol a'u perthynas â'r gymuned. Wrth baratoi ar gyfer asesiad Cylch 3, awgrymaf eich bod yn ystyried a ellid cryfhau'r berthynas â Sipsiwn a Theithwyr ymhellach i ymestyn aelodaeth y grŵp llywio i gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r gymuned ac aelodau o'r gymuned eu hunain.

Byddwch wedi derbyn hysbysiad gan fy swyddogion ynglŷn â'r bwriad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses o asesu llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r dogfennau cysylltiedig. Nod yr adolygiad hwn yw sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o asesiadau Cylch 1 a Chylch 2, ynghyd â'r gwaith craffu cysylltiedig, yn cael eu cymhwyso'n gyson i wella'r ansawdd ledled Cymru. Bydd swyddogion mewn cysylltiad i amlinellu'r camau nesaf a sut y gallwch gymryd rhan yn yr adolygiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylech nodi bod asesiad presennol Awdurdod Lleol o lety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd, yn parhau'n ddilys hyd nes y caiff ei ddisodli gan yr asesiad nesaf a gymeradwyir mewn perthynas â'r Awdurdod o bryd i'w gilydd. Felly, hyd yn oed os yw'r Awdurdod wedi cyflwyno asesiad newydd o lety Sipsiwn a Theithwyr i'w gymeradwyo, mae'r Awdurdod yn parhau i fod o dan ddyletswydd statudol i ddiwallu unrhyw angen sydd wedi'i nodi yn yr asesiad presennol a gymeradwywyd hyd at y dyddiad y cymeradwyir y nesaf.

Caiff cynnydd yr Awdurdod Lleol o ran diwallu'r anghenion a nodwyd ym mhob asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd ei fonitro gan Lywodraeth Cymru, ac edrychaf ymlaen at asesu'r cynnydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lesley Griffiths MS, Cabinet Secretary for Culture and Social Justice